

Canllawiau cerdyn gweithredu

- Dylid defnyddio'r cerdyn gweithredu hwn ar y cyd â chanllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru
- Mae'n tynnu sylw at gamau gweithredu pwysig i reoli haint Covid 19 yn y gweithle.

Gosod y cyd-destun

- Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau lle mae plant a phobl ifanc yn bresennol, pan fo'n ofynnol fel arfer i unigolion â chymwysterau priodol, gan gynnwys gwirfoddolwyr ac oedolion wedi'u hyfforddi, oruchwylio gweithgareddau'r plant neu bobl ifanc. Mae hyn yn berthnasol i blant o dan 18 oed (neu a oedd o dan 18 oed ar 31 Awst 2020).
- Rhaid i bob trefnydd gynnal **asesiad risg coronafeirws** cyn ailagor neu ehangu eu darpariaeth a dylid ei adolygu yng ngoleuni unrhyw newidiadau i'w darpariaeth neu i'r Lefel Rhybudd yn yr ardal lle mae'r busnes hwnnw'n gweithredu.
- Dylid mabwysiadu'r egwyddorion 'hierarchaeth rheolaethau' bob amser wrth reoli Covid 19 yn eich gweithgareddau. Dylid cynnal gweithgareddau yn rhithwir, neu yn yr awyr agored, lle bynnag y bo modd.

Sut mae cadw Covid 19 allan o fy ngweithle?

Mae'r camau allweddol i chi eu cymryd i fod mor ddiogel â phosibl o ran Covid wedi'u hamlinellu isod:

- Os bydd gan staff neu ymwelwyr symptomau, os ydyn nhw wedi cael canlyniad positif (yn aros am ganlyniad prawf) neu os ydyn nhw wedi cael cyswllt agos neu'n rhannu aelwyd â rhywun sydd wedi cael canlyniad positif, rhaid iddyn nhw beidio â dod i'r gweithgaredd a drefnwyr ac mae rhaid iddyn nhw ddilyn y **canllawiau hunanynysu** yn fanwl.
- Bydd yn dal yn ofynnol i unrhyw staff, gwirfoddolwyr, rhieni a phlant sy'n hunanynysu fel cyswllt i achos ac sydd wedi cael canlyniad negyddol i brawf gwblhau'r cyfnod ynysu o 10 diwrnod. RHAID i'r rhai sy'n cael canlyniad negyddol BEIDIO â dychwelyd i'r gwaith yn gynnar.
- Os bydd aelod o staff (gan gynnwys gwirfoddolwyr) neu blentyn yn mynd yn sâl neu'n dangos symptomau tra'n cymryd rhan yn y gweithgaredd, dylai adael y gweithgaredd ar unwaith a dilyn y cyngor ar **Brofi, Orlhain, Diogelu**, gan gynnwys trefnu prawf. Os yw'r unigolyn yn blentyn, efallai y bydd angen iddo gael ei ynysu oddi wrth gweddill y grŵp hyd nes y daw rhiant neu ofalwr i'w gasglu.
- Dylid cadw trefniadau staffio mor gyson â phosibl a dylai'r staff gadw pellter o 2m oddi wrth ei gilydd. Heblaw am staff, a rhieni lle bo angen, dim ond ymwelwyr hanfodol ddylai fod yn bresennol.
- Dylid osgoi rhannu cludiant. Dylid annog plant a staff (gan gynnwys gwirfoddolwyr) i gerdded neu feicio lle bo hynny's bosibl ac i osgoi defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar adegau prysur;

- Ni ddylai rhieni fanteisio ar eu presenoldeb yn ystod y gweithgareddau hyn i gymysgu â'i gilydd. Dylai pob oedolyn gadw pellter cymdeithasol, osgoi casglu ynghyd lle bo modd ac ni ddylai rhieni aros ar y safle oni bai bod angen iddynt fod yno er mwyn cynnal y digwyddiad.
- Cadwch fanylion cyswllt cywir a chofnod o bawb sy'n cymryd rhan yn y gweithgarwch er mwyn ei gwneud hi'n bosibl olrhain os ceir achos o'r feirws.
- Cadwch grwpiau o blant ar wahân i grwpiau eraill lle bo hynny'n bosibl a chadw cofnod o ba blant sydd ym mha grwpiau. Efallai y bydd angen cymorth ychwanegol ar rai plant i ddilyn gofynion diogelwch Covid a allai olygu bod angen addasu'r camau lliniaru a roddwyd ar waith.
- Atal rhannu bwyd, diod, llestri, offer cegin ac ati a chyfarpar a theganau, lle bo hynny'n bosibl.
- Sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei lanhau a'i ddiheintio'n rheolaidd a bod gweithdrefnau hylendid personol effeithiol ar waith, yn enwedig golchi dwylo'n aml gan y staff a'r plant. Efallai yr hoffech gyfeirio at y Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant sy'n cynnwys gwybodaeth berthnasol am gamau hylendid effeithiol.
- Anogwch gweithwyr a rhieni/gofalwyr i ddweud wrthyhych chi'n uniongyrchol am unrhyw ganlyniadau positif.

Beth ddylwn ei wneud pan fydd gweithiwr neu ymwelydd yn cael canlyniad positif am Covid 19?

- Byddwch yn dysgu am achos wedi'i gadarnhau yn eich lleoliad mewn nifer o ffyrdd: gan staff (gan gynnwys gwirfoddolwyr), rhieni neu ofalwyr, eich canolfan feddygol, gwasanaeth iechyd yr amgylchedd, gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu GIG Cymru neu gan lechyd Cyhoeddus Cymru.
- Pan fyddwch yn cael gwybod am achos positif, bydd angen ichi nodi unrhyw gydweithwyr (gan gynnwys gwirfoddolwyr), plant, rhieni neu ofalwyr a gafodd gyswllt agos â'r unigolyn a gafodd prawf positif yn ystod y 48 awr cyn i'r symptomau ymddangos. Rhaid cadw'r wybodaeth hon fel rhan o'r broses Profi, Orlhain a Diogelu a byddant yn gofyn amdani.

- Ar ôl dod o hyd i'r cysylltiadau hyn bydd angen iddyn nhw gael gwybod am y risg a rhaid eu cynghori a'u helpu i hunanynysu am 10 diwrnod.
- Ni ddylai trefnwyr ei gwneud yn ofynnol i unrhyw aelod o staff neu wirfoddolwyr y bu'n ofynnol iddynt hunanynysu fel cyswllt i achos gyflwyno prawf negyddol cyn dychwelyd i'r gwaith. Gallant ddychwelyd i'r gwaith ar ôl cwblhau eu cyfnod ynysu o 10 diwrnod.
- Mae hi'n bwysig bod yr wybodaeth hon yn cael ei chasglu a bod y camau'n cael eu cymryd cyn cysylltu â Profi, Orlhain a Diogelu am y tro cyntaf. Dylid nodi cysylltiadau cyn gynted ag y cewch eich hysbysu am achos, boed hynny gan aelod o staff neu riant.

Sut mae atal yr haint rhag lledaenu yn fy musnes?

Os bydd 2 achos neu fwy o'r rhai sy'n cymryd rhan yn eich gweithgaredd (gan gynnwys staff, plant ac ymwelwyr) yn cael canlyniad positif am Covid 19 mewn cyfnod o 14 diwrnod, bydd angen ichi ystyried a oes risgiau cynhenid yn y gweithgaredd. Efallai y byddwch yn dymuno:

- Adolygwch eich asesiad risg Coronafeirws gan gynnwys pa fesurau sydd gennych ar waith yn y gweithgaredd, nifer y plant sy'n cymryd rhan yn y gweithgaredd, cysondeb staff sy'n gweithio yn y lleoliad, a chamau rheoli ac atal heintio.

- Mae ymgysylltu â staff a'r undebau a chyda rhieni a rhannu'r cynllun diwygiedig yn rhan hanfodol o'r broses hon ac yn rhoi cyfle i atgyfnerthu arferion da a sicrhau bod pawb yn deall arwyddion a symptomau Covid 19 ac yn gweithredu'n briodol yn eu cylch, hynny yw hunanynysu a chynnal profion.
- Bydd unrhyw glwstwr yn y gweithgaredd yn golygu bod yr awdurdod lleol yn gweithredu ar fyrder. Bydd yr awdurdod lleol yn gallu eich cefnogi a'ch cynghori ar y camau eraill sy'n ofynnol ichi eu cymryd i liniaru risgiau parhaus. Efallai, fel un o'r rhain, y bydd yr Awdurdod Lleol eisiau ichi gefnogi rhoi profion i'ch holl staff i ddod o hyd i unrhyw unigolion asymptomatig.

Dolenni at ganllawiau allweddol:

<https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel-html>

<https://phw.nhs.wales/services-and-teams/harp/infection-prevention-and-control/guidance/infection-prevention-and-control-guidelines-for-childcare-settings-v2-september-2019-welsh/>

<https://llyw.cymru/cwestiynau-cyffredin-am-weithgareddau-awyr-agored-drefnir-i-blant>

<https://llyw.cymru/chwaraeon-hamdden-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-raddol-html>

<https://llyw.cymru/canllawiau-hunanynysu>

